**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**BWRDD STRYDLUN A PHEIRIANNEG Y CABINET**

**DYDD GWENER, 28 CHWEFROR 2020**

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr: E.V.Latham a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

M.Roberts, P. Jackson, S.Cook, Ms.J.Smith a/ac N.Headon

**Gwahoddedigion Craffu:**

Cynghorwyr: S.M.Pendry (Cadeirydd Craffu) a/ac R.W.Wood

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 6 Rhagfyr, 2019.

3. **CLUDIANT I DEITHWYR - FFRAMWAITH BYSUS LLEOL**

**Penderfyniad:**

Rhoddir yr awdurdod dirprwyedig hwnnw i Bennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet perthnasol i:-

1. Lunio Cytundeb Fframwaith gyda gweithredwyr bysiau ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau lleol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

2. Ymrwymo i unrhyw gontractau cynhwysfawr o'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn gwneud y broses dendro'n fwy effeithlon a lleihau'r gost i'r awdurdod lleol, bydd fframwaith yn creu mwy o gyfleoedd a mwy o hyblygrwydd i weithredwyr bysiau lleol wrth dendro am lwybrau bysiau cymorthdaledig.

Bydd cyflwyno'r fframwaith yn arbed amser i swyddogion drwy negyddu'r angen i werthuso gwybodaeth a ddarperir gan weithredwyr bysiau bob tro y bydd angen llwybr ar y cyngor. Mae cystadleuaeth fach yn ddull cyflymach a symlach i bawb sy'n ymwneud ag ef.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Cynnwys y contractwyr canlynol ar y Rhestr Gymeradwy o Gontractwyr yn y categorïau isod:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| W.F.James & Son Ltd<br>(sy'n masnachu fel Emro Landscapes) | 75, 77, 84, 102, 104 |
| R & R Waterblock<br>(sy'n masnachu fel Wales Roofing) | 17a,17b,17c,17d,17e<br>(hyd at werth £40k) |
| Ezra Property & Environmental Services Ltd | 15, 16, 84, 89 |

| | |
|---|---|
| Vanguard Roofing Ltd | 17a, 17b |
| Ibex Technical Access Ltd | 25, 27, 85, 88, 89, 93, 96, 97, 98, 101, 102, 105, 111 (Mynediad â rhaffau) |

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 5. RHAGLEN CAFFAEL CERBYDLU CERBYDAU A PHEIRIANNAU TRWM 2020-2021

**<u>Penderfyniad:</u>**

Cymeradwyo'r Rhaglen Caffael Cerbydau/Peirianwaith ar gyfer 2020/2021 i adnewyddu cerbydau, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**

Bydd gan y cerbydau a'r gwaith newydd safon Ewropeaidd uwch, a fydd yn galluogi'r cerbydlu i fod yn fwy effeithlon o ran tanwydd drwy ddefnyddio llai o danwydd a lleihau ôl troed carbon y cyngor drwy leihau allyriadau. Mae Cludiant Integredig hefyd wedi cynnal ymarfer effeithlonrwydd cerbydau i sefydlu defnydd o gerbydau/beirianwaith mewn adrannau gyda'r posibilrwydd o gyflwyno cerbydau trydan llawn a cherbydau ag allyriadau isel iawn (ULEV) a pheirianwaith i mewn i'r cerbydlu i leihau allyriadau carbon a gollwng o gerbydau cerbydlu'r awdurdod ymhellach. Gwneir hyn ar y cyd â gwelliannau seilwaith yn y dyfodol o fewn yr awdurdod a thrwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chwmnïau eraill.

Datblygir y manylebau i fodloni gofynion Iechyd a Diogelwch yr awdurdod a chaiff eu trafod gydag adrannau defnyddwyr, gwneuthurwyr a'r adran Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod y cerbydau cywir yn cael eu caffael.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 6. MAES PARCIO STATION ROAD

**Penderfyniad:**

Mabwysiadu’r strwythur gost a'i chyflwyno'n unol â'r costau presennol sy'n gweithredu ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener, a'u bod yn cael eu hysbysebu a'u cyflwyno os na cheir unrhyw wrthwynebiadau.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Dod â pharcio am ddim yn y lleoliad hwn i ben.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer gynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

## 7. GORCHYMYN TRAFFIG: SAFLE TACSIS, PORT TALBOT

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo hysbysebu dirymu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Safle Tacsis presennol, Gorchmynion Rheoleiddio Safle Tacsis Rhan-amser a Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Aros Cyfyngedig a rhoi Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Safle Tacsis parhaol ar waith, cyfyngu hyd y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Aros Cyfyngedig cyfagos a diddymu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Safle Tacsis Rhan-amser yn Lower Station Road, Port Talbot. Hysbysebu'r Gorchymyn Traffig, ac os na dderbynnir gwrthwynebiadau, ei roi ar waith ar y safle.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Darparu safle tacsis estynedig parhaol er mwyn diogelwch priffyrdd a cherddwyr.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer gynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

8. **GORCHYMYN TRAFFIG: OLD ROAD, LLANSAWEL, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiadau a gweithredu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn Hen Heol, Llansawel, Castell-nedd ar y safle fel y'i hysbysebwyd (fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd) a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cynnal cyfleuster croesi'n ddiogel er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

9. **GORCHYMYN TRAFFIG: PENYARD ROAD, MYNACHLOG NEDD, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Cadarnhau'r gwrthwynebiadau a diwygio'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn Heol Penyard, Mynachlog Nedd, Castell-nedd, Castell-nedd (fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad a ddosbarthwyd), a'i weithredu ar y safle a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

10. **GORCHYMYN/GORCHMYNION TRAFFIC: BAGLAN**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiadau a gweithredu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn Rhodfa Sant Illtyd, Cilgant yr Eglwys, Heol San Catherine a Heol yr Eglwys, Baglan (fel y nodir yn Atodiad A) ar y safle a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

11. **GORCHYMYN/GORCHMYNION TRAFFIC: MARGAM**

**Penderfyniadau:**

**1.** Rhoi'r terfyn cyflymder 40mya (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig) sydd ar yr A48 ym Margam, Port Talbot (fel a fanylwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd) ar waith ar y safle.

2. Gwrthod y gwrthwynebiadau a gweithredu'r Terfyn Cyflymder 30mya (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig) ar Ten Acre Wood, Lôn Fynediad i Orendy Margam a Grugwyllt Fawr, Margam, Port Talbot (fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd) ar y safle fel y'i hysbysebwyd a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Lleihau cyflymder cerbydau er diogelwch y briffordd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

12. **BLAENRAGLEN WAITH 2020/2021**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

13. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater sydd wedi'i gynnwys yng Nghofnod Rhif 14 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn

yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

14. **DANGOSYDDION PERFFIRMIAD ALLWEDDOL 2019/2020 - CHWARTER 3 (1 EBRILL 2019 - 31 RHAGFYR 2019)**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**